Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru
Healthcare Inspectorate Wales

# CYNLLUN GWEITHREDOL

## 2022 - 2023



# CYNNWYS


- Amdanom ni
- Trosolwg
- Rhagair
- Blaenoriaeth 1 – 4
- Adnoddau
- Cyswllt




# AMDANOM NI

## Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru (AGIC) yw'r arolygiaeth a rheoleiddiwr annibynnol ar gyfer gofal iechyd yng Nghymru.

Yn AGIC, rydym yn edrych ar **ansawdd, diogelwch ac effeithiolrwydd** y gwasanaethau sy'n cael eu darparu, gan **dynnu sylw at arferion da** lle rydym yn eu gweld a mynd i'r afael ag **arferion a allai achosi niwed** i'r rhai sy'n eu derbyn. Yr hyn sydd o bwys i bobl a chymunedau sydd wrth wraidd yr hyn rydym yn ei wneud.

Mae gofal iechyd yn bodoli ar gyfer pobl a chymunedau, ac mae'r gwaith rydym yn ei wneud yn edrych ar p'un a yw'n diwallu **anghenion cymuned** a ph'un a yw o **ansawdd da**. Lle rydym yn **dod o hyd i anghydraddoldebau** mewn darpariaeth gofal iechyd, lle nad yw gwasanaeth wedi'i ddylunio ar gyfer anghenion y gymuned y mae'n ei gwasanaethu, **byddwn yn herio hyn.**

Mae **cydraddoldeb ac amrywiaeth** wedi'u hymgorffori yn y gwaith rydym yn ei wneud ac rydym yn ystyried sut mae gwasanaethau gofal iechyd yn cyrraedd y rheini sy'n wynebu'r rhwystrau mwyaf i gael gofal iechyd o ansawdd da.

Mae ein cyfrifoldebau mewn perthynas ag iechyd meddwl yn pontio'r GIG a'r sector annibynnol. Mae AGIC hefyd yn gweithio gyda chyrff adolygu ac arolygiaeth eraill i ystyried **ansawdd y gofal iechyd** a ddarperir mewn lleoliadau y tu allan i'r system gofal iechyd megis carchardai.

# TROSOLWG

**Croeso i'n Cynllun Gweithredol ar gyfer 2022 - 2023. Mae'r ddogfen hon yn cyd-fynd â'n Cynllun Strategol ac yn amlinellu ein blaenoriaethau ar gyfer y flwyddyn nesaf.**

Yn ein cynllun, byddwn yn gosod ein rhaglen waith ar 2022 - 2023, gan ddiffinio'r cyflawniadau allweddol rydym yn bwriadu eu cyflawni a sut y cânt eu mesur. Rydym wedi gosod rhaglen waith heriol ar gyfer y flwyddyn ac, yn dilyn cyfnod lle bu pwysau aruthrol ar ein pobl, byddwn yn canolbwyntio mwy nag erioed ar gefnogi eu llesiant er mwyn eu galluogi i ddarparu’r gwasanaeth gorau posibl.

Rydym yn croesawu adborth, felly cysylltwch â ni os oes gennych unrhyw sylwadau ar ein gwaith neu os hoffech roi adborth ar wasanaethau gofal iechyd yng Nghymru.



# RHAGAIR

**Alun Jones**
**Prif Weithredwr Dros Dro**



## Croeso i'n Cynllun Gweithredol ar gyfer 2022 i 2023.

Eleni lansiwyd ein Cynllun Strategol ar gyfer y tair blynedd nesaf, gyda’r diben o ddylanwadu ar welliant a'i hybu ar draws gwasanaethau gofal iechyd yng Nghymru.

Mae'r Cynllun Gweithredol hwn yn amlinellu ein blaenoriaethau a'n camau gweithredu dros 2022 i 2023 i gyflawni ein strategaeth yn effeithlon ac yn effeithiol. Mae'r cyflawniadau arfaethedig yn y cynllun hwn yn nodi mesurau allweddol sut y byddwn yn cyflawni ein camau gweithredu a'n dyletswyddau statudol. Mae hyn yn cynnwys ffocws eleni ar ysgogi ac atgyfnerthu ymgysylltiad, gwella a moderneiddio ein ffyrdd o weithio, a deall ein cymunedau a’n rhanddeiliaid yn well mewn perthynas â chydraddoldeb, amrywiaeth a chynhwysiant. Mewn ymateb i’r pandemig, rydym wedi parhau i ddatblygu ac addasu, ac mae’r cynllun hwn yn adeiladu ar y gwaith hwnnw, fel y gallwn barhau i roi sicrwydd ynghylch ansawdd a diogelwch y gwasanaethau rydym yn eu rheoleiddio a’u harolygu.

.



# RHAGAIR



Rydym wedi gweld cyfnod o newid sylweddol ac mae'r cynllun hwn yn parhau i gefnogi sut rydym yn datblygu, er mwyn sicrhau ein bod yn parhau i fonitro a gwirio bod pobl yng Nghymru yn derbyn gofal iechyd o ansawdd da. Rydym wedi cyflwyno llawer o ffyrdd newydd o weithio er mwyn parhau i gyflawni ein swyddogaethau sefydliadol, ac ymateb yn hyblyg ar yr un pryd i unrhyw risgiau sy'n dod i'r amlwg. Mae pobl wrth wraidd yr hyn a wnawn, ac mae'n bwysig ein bod yn ymdrechu i rannu'r gwersi a ddysgwyd, myfyrio ar yr hyn sydd wedi gweithio'n dda, a mynd â'r dysgu hwn rhagddo er mwyn gwella'n barhaus. Byddwn yn parhau i wrando ar ein pobl a chefnogi eu llesiant er mwyn eu galluogi nhw a galluogi ein sefydliad i wneud y gwaith gorau posibl a sicrhau bod ein cymunedau'n ddiogel ac yn iach.

Rydym wedi nodi rhaglen waith amrywiol ar gyfer y flwyddyn ac rydym yn croesawu unrhyw adborth, felly cysylltwch â ni os oes gennych unrhyw sylwadau ar ein gwaith neu os hoffech roi adborth ar wasanaethau gofal iechyd yng Nghymru.

Rydym am gyflwyno ac ysgogi gwelliannau sy'n gwneud gwahaniaeth gwirioneddol, ac rwy'n hyderus y bydd y cynllun hwn yn ein cefnogi i wneud hyn.

**Alun Jones**
**Prif Weithredwr Dros Dro**

# BLAENORIAETH 1

**Byddwn yn canolbwyntio ar ansawdd y gofal iechyd a ddarperir i bobl a chymunedau wrth iddynt gyrchu a defnyddio gwasanaethau a symud rhyngddynt.**

## Camau gweithredu

- Byddwn yn ystyried ansawdd y gofal a roddir i bobl yn ystod eu hamser ar lwybr clinigol
- Byddwn yn chwilio am gyfleoedd i wrando ar bobl ynglŷn â'r hyn sydd o bwys iddynt ar eu taith gofal iechyd
- Byddwn yn datblygu ein dull ar gyfer archwilio gofal a ddarperir y tu mewn a'r tu allan i leoliad ysbyty, gan gydnabod bod llawer o bobl yn derbyn gofal yn y gymuned.



| Cyflawniadau Blwyddyn 1 | Wedi'u mesur gan | Canlyniad |
|---|---|---|
| Sefydlu grŵp cynghori rhanddeiliaid trosfwaol a chanddo gynrychiolaeth amrywiol a chynhwysol | • Archwilio, adeiladu a chynnal cydberthnasau gwaith newydd gyda rhanddeiliaid sy'n hyrwyddo cydraddoldeb, amrywiaeth a chynhwysiant gan ystyried anghenion y bobl sy'n defnyddio gwasanaethau gofal iechyd yng Nghymru<br>• Adolygu ac ymgynghori'n barhaus ar y gynrychiolaeth amrywiol o fewn y grŵp<br>• Gwerthuso effaith y grŵp er mwyn sicrhau ein bod yn gwrando ar ei farn, ac yn ei chyfleu'n effeithiol i lywio ein gwaith. | Bydd barn rhanddeiliaid wedi helpu i lunio ein rhaglen waith. |
| Cynyddu'r ystod o offer sydd gennym ar gyfer ymgysylltu â phobl am ein gwaith<br> | • Datblygu pecyn cymorth sy'n archwilio'r gwahanol ddulliau ymgysylltu sydd ar gael<br>• Gwella sut rydym yn sefydlu ac yn rhedeg grwpiau ffocws<br>• Cyflwyno ac adolygu dulliau ymgysylltu newydd ac amgen i dargedu cynulleidfaoedd newydd. | Bydd ein gwaith yn cael ei gefnogi gan gyfleoedd ymgysylltu ehangach a fydd yn cynyddu ein dealltwriaeth o faterion sy'n effeithio ar amrywiaeth o bobl o gefndiroedd amrywiol. |

| Cyflawniadau Blwyddyn 1 | Wedi'u mesur gan | Canlyniad |
| --- | --- | --- |
| Datblygu methodoleg newydd ar gyfer cynnal arolygiadau ar safleoedd practisau cyffredinol sy’n archwilio’r ddarpariaeth gofal sylfaenol ehangach y mae practisau cyffredinol yn rhan ohoni er mwyn darparu gofal cleifion | • Gweithredu'r fframwaith methodoleg newydd sy'n adlewyrchu rôl practisau cyffredinol yn y dirwedd gofal sylfaenol ehangach<br>• Cyflwyno hyfforddiant ar fethodoleg newydd practisau cyffredinol i arolygwyr ac adolygwyr cymheiriaid<br>• Cynnal nifer o arolygiadau o bractisau cyffredinol yn defnyddio'r fethodoleg newydd<br>• Cael adborth gan leoliadau practisau cyffredinol yn dilyn arolygiadau. | Bydd ein gwaith sicrwydd ar gyfer practisau cyffredinol wedi archwilio’r cyd-destun ehangach y mae practisau cyffredinol yn gweithredu ynddo, gan ddarparu dealltwriaeth fwy cyfannol i AGIC o’r system gofal sylfaenol a’r effaith ar gleifion. |
| Llunio opsiynau sy'n galluogi cynnwys llwybrau cleifion yn ein methodoleg arolygu a sicrwydd a'n rhaglen waith<br> | • Cynhyrchu set o egwyddorion strategol i ategu dull seiliedig ar risg o gynllunio ein rhaglen o waith methodoleg arolygu a sicrwydd<br>• Mae teithiau cleifion yn cael eu hystyried wrth gynllunio. | Bydd ein gwaith wedi rhoi mwy o ystyriaeth i'r gofal y mae cleifion yn ei gael mewn gwahanol rannau o'r system gofal iechyd a sut mae hyn yn effeithio ar eu gofal yn gyffredinol. |

| Cyflawniadau Blwyddyn 1 | Wedi'u mesur gan | Canlyniad |
|---|---|---|
| Adolygu ein proses sicrhau ansawdd ar gyfer ceisiadau am gofrestriadau | • Dosbarthu astudiaethau achos o arferion da a rhannu gwersi a ddysgwyd<br>• Adolygu ansawdd y ceisiadau a dderbyniwyd mewn perthynas â'r safonau diwygiedig. | Bydd ein gwaith cofrestru yn darparu ffynhonnell o wybodaeth am ansawdd darparwyr sydd newydd gofrestru, a fydd yn golygu y gallwn gynnal gwaith sicrwydd ar wasanaethau newydd yn unol â'r risg. |
| Cyflwyno rhaglen o adolygiadau cenedlaethol a lleol sy'n archwilio ansawdd y gofal a ddarperir i gleifion yn ystod eu hamser ar lwybr<br> | • Cynnal adolygiad cenedlaethol o lif cleifion<br>• Cychwyn adolygiad cenedlaethol o ofal wedi'i gynllunio<br>• Cynnal adolygiad lleol o ryddhau cleifion iechyd meddwl ym Mwrdd Iechyd Prifysgol Cwm Taf Morgannwg<br>• Cychwyn dau adolygiad lleol arall<br>• Cychwyn adolygiad ar y cyd gydag Archwilio Cymru o Fwrdd Iechyd Prifysgol Cwm Taf Morgannwg, i adolygu cynnydd o adroddiad 2019 ar y cyd ar drefniadau llywodraethu ansawdd y bwrdd iechyd. | Bydd ein gwaith wedi archwilio materion cenedlaethol risg uchel ac wedi cyflwyno argymhellion i wella'r gofal a ddarperir i gleifion yng Nghymru. |

# BLAENORIAETH 2

**Byddwn yn addasu ein dull gweithredu i sicrhau ein bod yn ymatebol i risgiau i ddiogelwch cleifion sy'n dod i'r amlwg.**

## Camau gweithredu

- Byddwn yn adeiladu ar y modelau hyblyg o waith sicrwydd ac arolygu rydym wedi'u datblygu yn ystod y pandemig, gan ddefnyddio'r holl offer sydd ar gael gennym i'n helpu i wneud ein gwaith
- Byddwn yn defnyddio ein swyddogaeth gwybodaeth fewnol a'n gwaith gydag eraill i gyfeirio ein gwaith at y meysydd lle ceir y risgiau uchaf
- Byddwn yn adeiladu ar ein dulliau ymgysylltu, fel y gallwn rannu ein negeseuon yn gyflym i ysgogi gwelliant.



| Cyflawniadau Blwyddyn 1 | Wedi'u mesur gan | Canlyniad |
| --- | --- | --- |
| Adolygu ein cyfres o adnoddau arolygu a sicrwydd | • Ffurfioli agwedd at waith mwy cymhleth oddi ar safleoedd<br>• Atgyfnerthu ein proses ar gyfer gwaith sicrwydd oddi ar safleoedd<br>• Gwerthuso effaith gwaith oddi ar safleoedd. | Bydd ein hoffer sicrwydd yn ein galluogi i fod yn ystwyth yn y ffordd yr ydym yn defnyddio ein hadnoddau, gan dargedu lefel y risg gyda'r offer sicrwydd priodol. |
| Mynd ati i rannu ein canfyddiadau a’n hargymhellion â rhanddeiliaid, darparwyr gwasanaethau a’r cyhoedd er mwyn dylanwadu ar welliannau a'u hysgogi ym maes gofal iechyd | • Cychwyn a chynhyrchu 'Bwletin Mewnwelediad Chwarterol' gydag adran 'dysgu a mewnwelediad'<br>• Datblygu ac ymgorffori proses newydd yn y busnes craidd ar gyfer cynhyrchu a dosbarthu bwletinau dysgu o'r fath<br>• Adolygu faint o fwletinau a gyhoeddwyd a'u dadansoddiadau ymgysylltu<br>• Datblygu adran bartneriaeth ar wefan allanol AGIC i gynnal cynnwys o'r fath. | Bydd ein canfyddiadau a'n hargymhellion wedi cael eu rhannu'n rheolaidd ac yn brydlon, gan helpu i gyfrannu at welliannau mewn gwasanaethau gofal iechyd. |
| Ymgynghori a datblygu strategaeth ymgysylltu i'n cefnogi yn ein gwaith  | • Ymgynghori â rhanddeiliaid allweddol i gael dealltwriaeth ehangach o sut y gallwn wella ein hymgysylltu<br>• Cynhyrchu drafft cychwynnol o'r strategaeth i'w ddosbarthu. | Bydd ein gwaith yn cael ei gefnogi gan ddealltwriaeth well o sut mae rhanddeiliaid, darparwyr gwasanaethau a'r cyhoedd am i ni ymgysylltu â nhw |

| Cyflawniadau Blwyddyn 1 | Wedi'u mesur gan | Canlyniad |
|---|---|---|
| Sicrhau bod yr holl brosesau arolygu a sicrwydd yn cyd-fynd â'r Safonau Iechyd a Gofal ac yn adlewyrchu unrhyw newidiadau iddynt | • Trosglwyddo'r safonau i bob un o arweinwyr meysydd gwasanaeth AGIC er mwyn eu gweithredu<br>• Adolygu a datblygu methodoleg sicrwydd i sicrhau bod ein gwaith yn cyd-fynd â'r safonau. | Trosglwyddo'r safonau i bob un o arweinwyr meysydd gwasanaeth AGIC er mwyn eu gweithredu<br>Adolygu a datblygu methodoleg sicrwydd i sicrhau bod ein gwaith yn cyd-fynd â'r safonau. |
| Sicrhau bod ein holl brosesau'n barod i adlewyrchu'r newid o'r trefniadau diogelu wrth amddifadu o ryddid i'r Diogeliadau Amddiffyn Rhyddid | • Adolygu a diweddaru'r asesiad effaith ar gyfer cyflwyno'r Diogeliadau Amddiffyn Rhyddid<br>• Ystyried unrhyw newidiadau i offer arolygu. | Bydd ein rhaglen waith yn barod i gyflawni ein cyfrifoldebau statudol mewn perthynas â'r Diogeliadau Amddiffyn Rhyddid unwaith y cânt eu cyflwyno. |
| Gwerthuso'r broses Gwasanaeth sy'n Peri Pryder ar gyfer y GIG a diweddaru ein dull gorfodi ar gyfer gwasanaethau gofal iechyd annibynnol<br> | • Gwerthuso sut mae proses Gwasanaeth sy'n Peri Pryder y GIG wedi'i rhoi ar waith, gan geisio adborth, er mwyn ei gwella lle bo angen<br>• Adnewyddu'r canllawiau gorfodi ac ymchwilio troseddol presennol ar gyfer y sector annibynnol<br>• Rhoi proses cyfryngau a chyfathrebu ffurfiol ar waith ar gyfer Gwasanaethau sy'n Peri Pryder ym maes gofal iechyd annibynnol. | Bydd ein dull gweithredu mewn perthynas ag uwchgyfeirio a gorfodi wedi'i ddiffinio'n glir ar draws yr holl wasanaethau gofal iechyd, a byddwn yn gallu cymhwyso hyn yn hyderus i wasanaethau nad ydynt yn darparu gofal diogel i gleifion. |

| Cyflawniadau Blwyddyn 1 | Wedi'u mesur gan | Canlyniad |
|---|---|---|
| Parhau i gyflwyno rhaglen o waith sicrwydd ac arolygu i leoliadau gofal iechyd annibynnol yn unol â’n dyletswyddau statudol a hyrwyddo’r canfyddiadau | Cynnal hyd at 97 o arolygiadau neu wiriadau ansawdd i amrywiaeth o leoliadau gofal iechyd annibynnol wedi’u rhannu ymhellach fel a ganlyn:<br><br>• Hyd at 9 arolygiad o bractisau deintyddol preifat yn unig (caiff gwaith ychwanegol o arolygu practisau deintyddol y GIG a phreifat cymysg ei gyfrif yng ngwaith cyflawniadau'r GIG)<br>• Hyd at 45 o arolygiadau o wasanaethau laser<br>• Hyd at 2 arolygiad o dan y Rheoliadau Ymbelydredd Ïoneiddio (Cysylltiad Meddygol)<br>• Hyd at 10 arolygiad o ysbytai iechyd meddwl<br>• Hyd at 6 arolygiad o ysbytai annibynnol<br>• Hyd at 5 arolygiad o hosbisau annibynnol<br>• Hyd at 20 arolygiad o glinigau annibynnol<br>• Canran yr adroddiadau a gyhoeddir o fewn saith wythnos i bob gwiriad ansawdd<br>• Canran yr adroddiadau a gyhoeddir o fewn tri mis ac un diwrnod yn dilyn pob arolygiad ar y safle. | Byddwn wedi gwirio ansawdd y gofal a ddarperir i gleifion mewn amrywiaeth o leoliadau gofal iechyd annibynnol ledled Cymru, gan gyfrannu at wella gwasanaethau i gleifion. |



| Cyflawniadau Blwyddyn 1 | Wedi'u mesur gan | Canlyniad |
|---|---|---|
| Parhau i gynnal rhaglen o waith sicrwydd ac arolygu yn y GIG i amrywiaeth o leoliadau, wedi'i llywio gan ddadansoddiad o risg, a hyrwyddo'r canfyddiadau | Cynnal hyd at gyfanswm o 169 arolygiad neu wiriad ansawdd i amrywiaeth o leoliadau'r GIG, wedi'u dadansoddi ymhellach fel a ganlyn:<br>• Hyd at 27 arolygiad practisau cyffredinol<br>• Hyd at 95 arolygiad deintyddol (dau o bractisau'r GIG, 93 o bractisau sy'n darparu contractau deintyddol preifat a'r GIG cymysg)<br>• Hyd at 5 arolygiad o dan y Rheoliadau Ymbelydredd Ïoneiddio (Cysylltiad Meddygol)<br>• Hyd at 10 arolygiad o wasanaethau iechyd meddwl y GIG<br>• Hyd at 24 arolygiad o ysbytai'r GIG<br>• Tri arolygiad Tîm Iechyd Meddwl Cymunedol<br>• Pum arolygiad o wasanaethau anabledd dysgu'r GIG<br>• Canran yr adroddiadau a gyhoeddir o fewn yr amser targed yn dilyn pob arolygiad a gwiriad ansawdd. | Byddwn wedi gwirio ansawdd y gofal a ddarperir i gleifion mewn ystod o leoliadau gofal iechyd y GIG ledled Cymru, gan gyfrannu at wella gwasanaethau i gleifion. |



# BLAENORIAETH 3


**Byddwn yn cydweithio er mwyn ysgogi'r gwaith o wella systemau a gwasanaethau ym maes gofal iechyd.**

## Camau gweithredu



- Byddwn yn gweithio gydag eraill i gryfhau ein dealltwriaeth o'r materion sy'n cael effaith ar wasanaethau gofal iechyd a'r bobl a chymunedau sy'n eu defnyddio
- Byddwn yn ystyried yn benodol yr heriau a wynebir gan grwpiau lleiafrifol wrth ddefnyddio gwasanaethau gofal iechyd, gan ddefnyddio'r ddealltwriaeth hon i helpu i herio anghydraddoldebau gofal iechyd drwy ein gwaith
- Byddwn yn adeiladu ar ein cydberthnasau gwaith gyda phartneriaid fel y gallwn gynyddu'r effaith y gallwn ei gwneud ar ansawdd y gofal iechyd a ddarperir i bobl yng Nghymru
- Byddwn yn cefnogi ein staff i wneud dyfarniadau ynglŷn â materion ar lefel gwasanaethau a lefel systemau.

| Cyflawniadau Blwyddyn 1 | Wedi'u mesur gan | Canlyniad |
|---|---|---|
| Ymgynghori ar Strategaeth Cydraddoldeb, Amrywiaeth a Chynhwysiant newydd | • Cynllunio proses ymgynghori i gynnwys rhanddeiliaid allweddol<br>• Cynhyrchu drafft cychwynnol o'r strategaeth i'w ddosbarthu<br>• Datblygu pecyn cymorth asesu effaith ar gydraddoldeb a hyfforddiant dilynol. | Bydd ein gwaith wedi'i lywio gan ein dealltwriaeth gynyddol o gydraddoldeb, amrywiaeth a chynhwysiant yn ein gwaith. |
| Cynnal dadansoddiad o’r bylchau gyda darparwyr gofal iechyd annibynnol i gael dealltwriaeth ehangach o'u dulliau cyfathrebu dewisol | • Dosbarthu arolwg i ddarparwyr er mwyn iddynt ‘ddweud eu dweud’ ar ddulliau cyfathrebu dewisol<br>• Cynhyrchu adroddiad yn dilyn yr arolwg i adolygu'r dulliau gorau o ymgysylltu<br>• Nodi a gwerthuso unrhyw ddulliau newydd a awgrymir. | Bydd ein dealltwriaeth o'r hyn y mae angen i ddarparwyr gofal iechyd annibynnol ei glywed gennym yn cael ei llywio gan yr hyn y maent wedi dweud wrthym. |
| Datblygu adran Gofal Iechyd Annibynnol y wefan allanol<br> | • Cynyddu'r wybodaeth sydd ar gael ar gyfer gwasanaethau gofal iechyd annibynnol a chreu ardal bwrpasol ar wefan allanol AGIC. | Bydd gan ddarpar ddarparwyr gofal iechyd annibynnol a'r rhai sydd eisoes yn ddarparwyr fynediad haws at wybodaeth, a fydd yn eu helpu i ddarparu gwasanaethau diogel ac effeithiol.<br> |

| Cyflawniadau Blwyddyn 1 | Wedi'u mesur gan | Canlyniad |
|---|---|---|
| Datblygu uwchgynhadledd gofal iechyd i fynd i'r afael â materion a blaenoriaethau sy'n dod i'r amlwg | • Gwerthuso gweithgarwch AGIC a'r effaith ar ôl pob uwchgynhadledd. | Bydd ein gwaith yn cael ei lywio gan waith partneriaeth cryf a fydd yn rhoi gwell dealltwriaeth i ni o risgiau a phroblemau mewn gwasanaethau gofal iechyd ledled Cymru. |
| Buddsoddi yn natblygiad ein hadolygwyr cymheiriaid a phrofiad cleifion i barhau i ddatblygu eu sgiliau | • Cynnal cyfres o sesiynau datblygu<br>• Nifer y sesiynau a gynhaliwyd<br>• Adolygu ffurflenni asesu cymhwysedd wedi'u cwblhau<br>• Dosbarthu holiadur adborth ar ddiwedd y flwyddyn i asesu gwerth y sesiynau<br>• Cyflwyno adran yn y Bwletin Mewnweledyd Chwarterol ar gyfer datblygu adolygwyr cymheiriaid a phrofiad cleifion. | Bydd ein gwaith yn cael ei gefnogi gan adolygwyr cymheiriaid a phrofiad cleifion sydd wedi cael yr hyfforddiant diweddaraf ac sy'n ymgysylltu â'n gwaith. |
|  Ymgorffori mecanwaith llywodraethu newydd ar gyfer cydweithio pellach gyda rhanddeiliaid allweddol | • Adolygu bod ein cynlluniau gwaith arolygu a sicrwydd yn cyd-fynd er mwyn cydweithio'n well â rhanddeiliaid allweddol<br>• Cydgrynhoi'r canfyddiadau allweddol a'r themâu sy'n dod i'r amlwg o'n gwaith ar y cyd ac ystyried sut y gall y rhain lywio ein rhaglenni gwaith yn y dyfodol. | Bydd ein heffaith ar wasanaethau gofal iechyd yn cael ei chefnogi gan fwy o waith partneriaeth, gan ddarparu golwg fwy cyfannol o'r materion sy'n wynebu cleifion. |

| Cyflawniadau Blwyddyn 1 | Wedi'u nodi gan | Canlyniad |
|---|---|---|
| Sicrhau y ceir y gwerth gorau posibl o system rheoli data bwrpasol AGIC o'r enw 'Pwls' drwy hyfforddiant pellach | • Datblygu a gweithredu cynllun hyfforddi ar gyfer y staff presennol a newydd<br>• Adolygiad o ansawdd y data a fewnbynnir i'r system<br>• Adborth gan staff ar effeithiolrwydd Pwls<br>• Adolygu sut rydym yn defnyddio data a dynnwyd o Pwls i lywio ein gwaith. | Bydd ein staff yn gallu cael mynediad gwell at y wybodaeth ddiweddaraf am leoliadau gofal iechyd, sydd i gyd mewn un lleoliad er mwyn ein galluogi i weithio'n fwy effeithlon. |
| Parhau i ddarparu gwasanaeth sydd â dull ymatebol o ymdrin â phryderon y mae aelodau'r cyhoedd a rhanddeiliaid yn eu cyflwyno i ni. | • Gwerthuso themâu a thueddiadau'r pryderon a dderbynnir er mwyn llywio ein rhaglen waith<br>• Dadansoddi canlyniad pob pryder, gan adolygu'r amserlen a'r camau a gymerir. | Byddwn yn darparu proses gadarn i ymdrin â phryderon a ddaw i law, a fydd yn ein galluogi i ymdrin â materion yn effeithlon ac yn effeithiol. |



# BLAENORIAETH 4

**Byddwn yn cefnogi ac yn datblygu ein gweithlu i'w galluogi nhw, a'r sefydliad, i gyflawni ein blaenoriaethau.**

## Camau gweithredu

- Byddwn yn parhau i fuddsoddi i ddatblygu sgiliau a gwybodaeth ein staff
- Byddwn yn adeiladu ar y diwylliant o ddysgu sydd gennym ar waith, gan sicrhau bod gwerthuso a myfyrio yn ddull craidd yn ein gwaith
- Byddwn yn ymgorffori ein strategaeth llywodraethu ansawdd fel ei bod wrth wraidd popeth rydym yn ei wneud



| Cyflawniadau Blwyddyn 1 | Wedi'u mesur gan | Canlyniad |
| --- | --- | --- |
| Adolygu cwmpas a rôl ein Fforwm Pobl i sicrhau ei fod yn gwneud y cyfraniad mwyaf effeithiol at anghenion ein staff a'r sefydliad | • Ymgynghori ar y fforwm a llunio cynllun ail-lansio mewnol ar ei gyfer<br>• Cynnal cynhadledd i'r holl staff a dadansoddi ffurflenni adborth dilynol. | Bydd ein staff yn ymwneud â llywio datblygiad parhaus y sefydliad drwy fforwm sefydledig y gallant fwydo eu profiadau a'u mewnwelediad yn uniongyrchol iddo. |
| Ymgorfforu strategaeth ansawdd AGIC ymhellach yn y sefydliad | • Adolygu allbwn AGIC mewn perthynas â threfnu nodau ac amcanion y strategaeth ansawdd<br>• Adolygu strwythur y sefydliad i gynorthwyo â gweithredu'r strategaeth ansawdd<br>• Dyrannu adnoddau penodol i sicrhau bod y strategaeth yn cael ei chyflawni'n effeithiol. | Bydd ein gwaith yn cael ei herio a'i wella drwy roi dull gwella ansawdd parhaus ar waith. |
| Datblygu cynllun dysgu a datblygu ar gyfer y flwyddyn i gefnogi staff a'r sefydliad i ddatblygu | • Cynnal rhaglen reolaidd o gyfleoedd hyfforddi a datblygu i staff<br>• Nifer y sesiynau hyfforddi a ddarperir<br>• Adolygu ffurflenni adborth yr hyfforddiant. | Drwy ddiwylliant o dwf a dysgu, bydd ein staff wedi cael cyfleoedd i ddatblygu, a bydd hyn yn ysgogi gwelliannau yn ein gwaith ein hunain. |



# ADNODDAU

Yn unol â sefydliadau eraill yn y sector cyhoeddus, disgwyliwn y byddwn yn wynebu pwysau cyllidebol yn y blynyddoedd i ddod. Ar gyfer 2022-2023, mae gennym gyllideb o oddeutu £4.3 miliwn. Bydd hyn yn ein galluogi i barhau i gyflawni gweithgarwch craidd, gan gynnwys gwaith dilynol ar argymhellion blaenorol a'r gallu i ymateb i wybodaeth sy'n dod i'r amlwg.

Mae gennym swyddi sy'n cyfateb i 83 o staff amser llawn yn ogystal â phanel o dros 200 o adolygwyr cymheiriaid arbenigol. Mae gennym hefyd arbenigwyr mewn gweinyddu'r Ddeddf Iechyd Meddwl a phanel o seiciatryddion sy'n darparu ein gwasanaeth ail farn gan feddygon penodedig. Mae gennym 35 o adolygwyr profiad claf ac arbenigwyr drwy brofiad sy'n gweithio gyda ni ar arolygiadau i gasglu barn cleifion.



| Tîm | Swyddi |
|---|---|
| Uwch-swyddog Gweithredol | 3 |
| Arolygiadau, Rheoliadau a Phryderon | 39 |
| Partnriaethau, Gwybodaeth a Methodoleg | 14 |
| Polisi, Strategaeth ac Ymgysylltu | 5 |
| Cyngor clinigol (gan gynnwys gwasanaeth meddyg a benodwyd i roi ail farn) | 4 |
| Gwasanaethau Corfforaethol (gan gynnwys cymorth busnes | 18 |
| Cyfanswm | 83 |




# CYSWLLT


0300 062 8163

agic.org.uk

Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru
Llywodraeth Cymru
Parc Busnes Rhyd-y-car
Merthyr Tudful
CF48 1UZ

ISBN: 978-1-80364-404-5